

The logo for iwa is a white circle containing the word "iwa" in a red, lowercase, serif font.

iwa

Pecyn gwybodaeth ar gyfer recriwtio o
aelodau'r Bwrdd

Sefydliad Materion Cymreig

Hoffech chi helpu i ddatblygu Cymru well ar gyfer y dyfodol?

Mae Ymddiriedolwyr yr Sefydliad Materion Cymreig (SMC) yn falch iawn o
fod yn chwilio am aelodau newydd ar gyfer ein Bwrdd.

Ynglŷn â'r SMC

Ni yw'r Sefydliad Materion Cymreig, prif felin drafod annibynnol Cymru. Cawsom ein sefydlu ym 1987 ac rydym yn dwyn ynghyd profiad ac arbenigedd o bob cefndir i gydweithio ar y materion pwysicaf sy'n wynebu Cymru. Rydym yn sefydliad aelodaeth, yn annibynnol ar y llywodraeth a phleidiau gwleidyddol. Rydym yn elusen (rhif 1078435) a chwmni cyfyngedig drwy warant (rhif 02151006). Rydym yn falch o fod yn gyflogwr Cyflog Byw achrededig, ac yn llofnodwr Dim Hiliaeth Cymru ac mae gennym statws Elusen Ddibynadwy.

Ein gweledigaeth yw helpu i greu Cymru lle gall pawb ffynnu.

Ein Cenhadaeth yw ysbrydoli uchelgais Cymru: rydym yn gweithio i gefnogi prosesau llunio polisïau gwell a gwell canlyniadau economaidd a democrataidd i bobl Cymru.

Ein strategaeth yw:

- darparu llwyfannau agored, cynhwysol a gwybodus ar gyfer trafodaethau cadarn
- rhoi cyfleoedd i bobl yng Nghymru gynyddu eu gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a lleisio eu barn
- datblygu a sicrhau ymrwymiad i weithredu syniadau a all drawsnewid Cymru yn ein meysydd blaenoriaeth:
 - democratiaeth gref a hyderus
 - economi lwyddiannus, werdd a theg.

Ein gwerthoedd yw sail popeth a wnawn:

- Rydym yn annibynnol
- Nid oes gennym unrhyw deyrngarwch i unrhyw grŵp â buddiant gwleidyddol neu economaidd
- Ein nod yw bod yn gynhwysol ac amrywiol
- Mae ein gwaith yn cael ei lywio gan dystiolaeth
- Ein hunig fuddiant yw gweld Cymru'n ffynnu fel gwlad i weithio a byw ynddi.

Ein gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd yn sail i bopeth a wnawn:

Annibynnol

Rydym yn annibynnol

Cyfanrwydd

Nid oes gennym unrhyw deyrngarwch i unrhyw grŵp â buddiant gwleidyddol neu economaidd

Cynwysedig

Ein nod yw bod yn gynhwysol ac amrywiol

Arloesol

Ein hunig fuddiant yw gweld Cymru'n ffynnu fel gwlad i weithio a byw ynddi.

Gwybodus

Mae ein gwaith yn cael ei lywio gan dystiolaeth

Rôl Ymddiriedolwr

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol ar y cyd ac yn unigol am lywodraethu'r Elusen yn gyffredinol ac am ei chyfeiriad strategol, ei chyflwr ariannol, uniondeb ei gweithgareddau a datblygiad nodau, amcanion a thargedau'r sefydliad yn unol â'r ddogfen lywodraethu, canllawiau cyfreithiol a chanllawiau rheoleiddiol. Yn ogystal, rhaid i'r Ymddiriedolwyr ddangos dealltwriaeth o saith egwyddor Nolan ar gyfer bywyd cyhoeddus a dangos eu bod yn eu derbyn: y saith egwyddor yw anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Rydym yn arbennig o awyddus i sicrhau ein bod yn parhau i fod â detholiad amrywiol o brofiadau ac arbenigedd i oruchwylio cam nesaf datblygiad y felin drafod ddylanwadol hon. O'r herwydd, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan ymgeiswyr sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl a/neu sydd â phrofiad yn y proffesiwn cyfreithiol.



Dyma ddyletswyddau statudol Ymddiriedolwr:

- Sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'i ddogfen lywodraethu
- Sicrhau bod y sefydliad yn dilyn ei amcanion fel y'u diffinnir yn ei ddogfen lywodraethu
- Sicrhau bod y sefydliad yn cymhwyso ei adnoddau yn unol â'i amcanion ac nid i unrhyw bwrpas arall. Ni ddylai'r Elusen wario arian ar weithgareddau nad ydynt wedi'u cynnwys yn ei hamcanion, ni waeth pa mor 'elusennol' a 'gwerth chweil' yw'r gweithgareddau hynny
- Cyfrannu'n weithredol at rôl Bwrdd yr Ymddiriedolwyr drwy roi cyfeiriad strategol cadarn i'r sefydliad, gosod polisiau cyffredinol, diffinio nodau a gosod targedau a gwerthuso perfformiad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt

- Diogelu enw da a gwerthoedd y sefydliad
- Sicrhau gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon y sefydliad
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol y sefydliad
- Diogelu a rheoli eiddo'r sefydliad a sicrhau bod cronfeydd y sefydliad yn cael eu buddsoddi'n briodol
- Os yw'r sefydliad yn cyflogi staff, penodi'r Cyfarwyddwr a monitro perfformiad yr unigolyn hwnnw.

Yn ogystal, ac ar y cyd ag Ymddiriedolwyr eraill, dal yr elusen “mewn ymddiriedolaeth” at y dyfodol drwy'r ffyrdd canlynol:

- Sicrhau bod gan yr Elusen weledigaeth, cenhadaeth a chyfeiriad strategol clir a'i bod yn canolbwyntio ar gyflawni'r rhain
- Bod yn gyfrifol am berfformiad yr Elusen ac am ei hymddygiad “corfforaethol”; sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol
- Gweithredu fel gwarcheidwaid asedau'r Elusen, yn asedau diriaethol ac yn asedau annirweddol, gan roi'r holl ofal dyledus i'w diogelwch, eu defnydd a'u cymhwysiad cywir.
- Sicrhau bod dulliau llywodraethu'r Elusen o'r safon uchaf posibl.

Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol uchod, dylai pob Ymddiriedolwr ddefnyddio unrhyw sgiliau, gwybodaeth neu brofiad penodol sydd ganddo i helpu Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i ddod i benderfyniadau cadarn. Gall hyn gynnwys:

- Craffu ar bapurau'r Bwrdd
- Arwain trafodaethau
- Canolbwyntio ar faterion allweddol
- Rhoi arweiniad ar fentrau newydd
- Eistedd ar baneli recriwtio, paneli disgyblu a phaneli cwynion cyflogaeth fel y bo'n briodol
- Materion eraill lle mae gan yr Ymddiriedolwr arbenigedd benodol.

Manyleb person



Gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth

- Ymrwymiad i'r sefydliad a pharodrwydd i ymroi'r amser a'r ymdrech angenrheidiol
- Parodrwydd i wneud argymhellion amhoblogaidd i'r bwrdd, a pharodrwydd i ddweud yr hyn sydd ar eu meddwl
- Parodrwydd i fod ar gael i staff i roi cyngor ac ymdrin ag ymholiadau ar sail ad hoc
- Crebwyll da, annibynnol, gallu gwneud penderfyniadau'n effeithiol a meddu ar weledigaeth strategol
- Deall a derbyn dyletswyddau, cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol ymddiriedolaeth
- Y gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm
- Dangos parodrwydd i feithrin a chynnal cysylltiadau â rhanddeiliaid a chydweithwyr allweddol er mwyn cyflawni amcanion sefydliadol
- Enw da am ymrwymo i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Profiad o arddel tegwch a'r gallu i barchu cyfrinachedd
- Cyd-ddealltwriaeth eu bod yno i weithredu er budd gorau'r SMC.

Rhinweddau personol

- Dangos brwdfrydedd ac ymrwymiad cryf ac amlwg tuag at yr Elusen
- Arddangos galluoedd rhyngbersonol cryf a'r gallu i feithrin cysylltiadau a rhwydweithiau a bod yn gyfforddus mewn rôl lysgenhadol
- Dangos doethineb a diplomyddiaeth, gyda'r gallu i wrando ac ymgysylltu'n effeithiol
- Y gallu i feithrin a hyrwyddo amgylchedd cydweithredol ar gyfer timau
- Y gallu i ymrwymo amser i ymgymryd â'r rôl yn dda, gan gynnwys mynychu digwyddiadau y tu allan i oriau swyddfa ychydig o weithiau'r flwyddyn yn ogystal â mynychu cyfarfodydd Bwrdd a theithio'n achlysurol iawn.

Gwybodaeth bellach



Tymor

Mae aelodau'r Bwrdd yn gwasanaethu am dymor o bedair blynedd ac yna byddant yn gymwys i gael eu hailbenodi am un tymor ychwanegol.

Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae swyddi ymddiriedolwyr yn ddi-dâl. Fodd bynnag, gellir eu hadalu'n llawn am unrhyw gostau ariannol sydd angen eu gwario wrth gyflawni busnes y Bwrdd.

Lleoliad

Mae swyddfa'r IWA yng Nghaerdydd, lle mae'r rhan fwyaf o'n cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal. Rydym yn annog ein hymddiriedolwyr i ymuno â chyfarfodydd y Bwrdd yn rhithwir pan nad ydynt yn gallu bod yno'n bersonol.

Ymrwymiad amser

Rydym yn disgwyl i'r Ymddiriedolwyr fynychu o leiaf 4 cyfarfod Bwrdd y flwyddyn, gyda phob cyfarfod yn para dwy awr a 2 awr o waith baratoi ar gyfer pob un.

Cais

Anfonwch CV a llythyr eglurhaol (dim mwy na dwy dudalen A4 yr un) yn amlinellu sut rydych chi'n bodloni gofynion y swydd ddisgrifiad i info@iwa.org.uk erbyn 5 o'r gloch brynhawn Gwener, 6 Tachwedd 2026.

Am drafodaeth anffurfiol a chyfrinachol am y rôl gyda'n Cadeirydd, e-bostiwch info@iwa.org.uk i drefnu galwad.

Cysylltwch â ni

The logo for iwa (Independent Workers' Union of Great Britain) is a white circle containing the word "iwa" in a red, lowercase, sans-serif font.

iwa

Os hoffech gael gwybod mwy am ein gwaith neu os hoffech drafod eich cais gyda ni, gallwch ein cyrraedd ar-lein neu ddod o hyd i ni yn sbarc|spark, Caerdydd.



02920 484387



www.iwa.wales



info@iwa.org.uk



[iwa-wales.bsky.social](https://bsky.app/profile/iwa-wales.bsky.social)



Ystafell 6.01, sbarc|spark
Stryd Maindy, Caerdydd
CF24 4HQ



[IWA_Wales](https://www.instagram.com/IWA_Wales)

**ZERO
RACISM
WALES**

